



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ [pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk)

**Pennaeth / Headteacher: Mr Iwan Wyn Taylor**



26.3.20

Annwyl Rieni,

Mae'n debygol fod nifer ohonoch yn pryderu am geisio 'addysgu gartref'. Peidiwch â phoeni yn ormodol am hyn. Dim ots faint mor galed y byddwch yn trio, ni fyddwch yn llwyddo i efelychu yr hyn sydd yn digwydd mewn ysgol – ac nid oes disgwyl i chi drïo! Ni allwch ail greu yr un amgylchedd ddysgu â geir yn yr ysgol. Y flaenoriaeth a'r prif ffocws ar hyn o bryd yw hapusrwydd, iechyd, a lles eich plentyn. Er fod pecynnau gwaith a llwyfan Google Classroom (CA2) ar gael i chi ar hyn o bryd, nid oes disgwyliad i gwblhau pob dim. Ond, os oes ganddoch unrhyw gwestiwn, yn cysylltwch â ni ar bob cyfrif drwy ebost ac fe ddown yn ôl atoch cyn gynted ag y gallwn.

Mor hawdd y dyddiau yma yw teimlo dan bwysau a theimlo'n fethiant, yn enwedig wrth weld beth mae rhieni eraill yn ei wneud a'i gyflawni ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae eu bwriad o rannu syniadau da yn amlwg yn un gwych, ond nid yw sefyllfa pob teulu yr un fath ac fe all hyn fod yn destun pryder i sawl un. Cofiwch, mewn dosbarth o ddydd i ddydd, mae gwaith yn cael ei wahaniaethu a'i deilwra ar sawl lefel ar gyfer yr ystod o allu, ac fe wneir defnydd o amrediad o wahanol adnoddau arbennig.

Mae ychydig o ddysgu adref yn wych: darllen, ymarfer y tablau, cwblhau rhai o'r tasgau yr ydym wedi eu gosod, sesiynau ffitrwydd yn yr ardd, dysgu cau careiau esgidiau, ond gofalgwch fod digonedd o amser hefyd i chwarae, i arddio, i bobi, i greu, i adeiladu ac i gael hwyl! Ar hyn o bryd, lleddfu pryderon y plant sy'n hollbwysig! Bydd gwell strwythur ac arweiniad o ran gweithgareddau i'w gwneud yn y cartref yn dilyn gwyliau swyddogol y Pasg os fydd angen.

Peidiwch da chi â theimlo dan bwysau i ofalu fod eich plentyn yn 'dysgu' am nifer penodol o oriau bob dydd. Cyn gynted ag y byddwn yn ôl yn yr ysgol byddwn yn gweithio yn galed i godi safonau a sicrhau fod sgiliau y plant yn gwneud cynnydd cadarn iawn.

Mae gwybodaeth parthed gwasanaeth gofal yr wythnos nesaf i gefnogi gweithwyr critigol a'r rhai sydd ar y 'rheng flaen' i ddilyn maes o law i'r rhieni perthnasol.

Cadwch yn saff ac yn iach!

Yn gywir iawn,

**Iwan Wyn Taylor**

**(Pennaeth)**